

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2022

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd) Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Is-Gadeirydd) Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, Cynghorydd R.Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE FRAGS, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams
WRTH LAW:	Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, Pennaeth Gwasanaethau Tai, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, Pennaeth Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Adnoddau Dynol (NH), Swyddog Cyfathrebu (GJ), Swyddog Pwyllgor (MEH).
HEFYD YN BRESENNOL:	Dim
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws, A M Jones, Richard Owain Jones, Bryan Owen a J A Roberts Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd R Meirion Jones ddiddordeb personol gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd ac, ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, roedd yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod.

Datganodd y Cynghorydd Gary Pritchard ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd ac, ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y mater. 2

Datganodd y Cynghorydd Robin Williams ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd ac, ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y mater.

2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:-

“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12A o'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

3. APWYNTIO STAFF - DIRPRWY BRIF WEITHREDWR

Ystyriwyd argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2022 mewn perthynas â phenodi Dirprwy Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn.

PENDERFYNWYD:-

- **cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2022 bod Mr Rhys Howard Hughes yn cael ei benodi yn Ddirprwy Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn;**
- **bod rôl y Dirprwy Brif Weithredwr yn cael ei diwygio dros dro i gynnwys swyddogaethau statudol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Mesurau Llywodraethu Cymru 2021, ond yn ddarostyngedig i'r amod na chaiff y Dirprwy Brif Weithredwr, wrth gyflawni swyddogaethau statudol y rôl hon, arfer y pwerau a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr o dan baragraff 3.5.3.2.10 y Cyfansoddiad, neu weithredu fel y Prif Weithredwr.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES
CADEIRYDD**